

Gwasanaethau Gofal Iechyd ar draws ffin GIG Cymru / Lloegr: Datganiad o werthoedd ac egwyddorion

- 1) Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r gwerthoedd a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt rhwng y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr i sicrhau ymadweithio didrafferth ac effeithlon rhwng y ddau gorff ar gyfer cleifion ar hyd ffin Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn cefnogi canlyniadau gwell i gleifion ac osgoi darnio gofal.
- 2) Mae'r ddogfen hon yn cydnabod y gwahaniaethau yn neddfwriaeth¹ y ddwy wlad a hawliau cleifion. Er nad yw'r ddogfen hon yn rhwymo mewn cyfraith, mae'r ddwy wlad yn ymrwmo i ddarparu gofal o ansawdd uchel yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon. Maent hefyd yn cydnabod bod gan drigolion Cymru a Lloegr yr hawl i gael eu trin yn unol â hawliau'r wlad y maent yn byw ynddi.
- 3) Bydd y ddwy wlad yn gweithredu er budd gorau'r claf bob amser, ac ni fydd oedi wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd wrth i'r cyfrifoldebau am gomisiynu gael eu hegluro.
- 4) Mae pob gwlad yn cydnabod bod gan wahanol gyrff y GIG wahanol strwythurau atebolrwydd ar waith ar naill ochr i'r ffin.
- 5) Nodir y manylion gweithredol ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol a'r meysydd y bydd hyn yn effeithio arnynt ar hyd ffin Cymru a Lloegr yn Atodiad 1
- 6) Mae diogelwch a llesiant cleifion yn hollbwysig. Prif egwyddor y datganiad hwn yw na chaiff unrhyw driniaeth ei gwrthod ac na fydd unrhyw oedi oherwydd ansicrwydd neu amwysedd ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu darpariaeth gofal iechyd unigolyn.

Hawliau Cyfreithiol a Safonau ar gyfer Trigolion mewn Ardaloedd Diffiniedig o'r Ffin

- 7) Bydd angen i wasanaethau iechyd trawsffiniol lynu wrth y rheoliadau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (ar gyfer Cymru a Lloegr) ac wrth Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).
- 8) Yn gysylltiedig â chleifion sy'n byw ar hyd ffin Cymru a Lloegr fel y'i diffinnir yn Atodiad 1:
 - a) I gleifion sy'n byw yng Nghymru sydd wedi eu cofrestru â phractis meddyg teulu sydd o dan reolaeth GIG Lloegr, bydd y cyfrifoldeb

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/the-nhs-constitution-for-england>,
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_en.pdf,
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>,
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted>

cyfreithiol am gomisiynu neu am gynllunio a sicrhau eu gofal iechyd yn aros yn nwylo eu Bwrdd Iechyd Lleol (BILI). Fodd bynnag, bydd y Grŵp Comisiynu Clinigol (CCG) sy'n cynnwys eu practis meddyg teulu (neu ar gyfer iechyd milwrol, arbenigol a throseddwr, GIG Lloegr) yn comisiynu ac yn talu am wasanaethau iechyd y trigolion hynny ar ran y BILI.

- b) I gleifion sy'n byw yn Lloegr ac sydd wedi'u cofrestru â phractis meddyg teulu o dan gontract i Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, bydd y cyfrifoldeb cyfreithiol am gomisiynu neu am gynllunio a sicrhau eu gofal iechyd yn aros gyda'u CCG. Fodd bynnag, bydd y BILI yn comisiynu ac yn talu am wasanaethau iechyd y trigolion hynny ar ran y CCG.
- c) Mae Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn comisiynu gwasanaethau arbenigol drwy gydbwyllgor statudol a elwir yn Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Mae hwn yn cynnwys ceisiadau cyllid cleifion unigol arbenigol. Dylid dehongli cyfeiriadau at fyrddau iechyd lleol yn y ddogfen hon fel rhai sy'n cyfeirio at y WHSSC pan fo gwasanaethau arbenigol i'w comisiynu. Mae'r gwasanaethau a ystyrir yn rhai arbenigol yng Nghymru ar gael ar wefan WHHSC.²

8) Mae'r Gwasanaeth Asesiad Atgyfeirio (RAS) yn gweithredu fel un pwynt cyswllt. Fe'i defnyddir wrth atgyfeirio cleifion o Loegr (sydd wedi eu cofrestru â phractis meddyg teulu sydd wedi dewis bod yn rhan o'r gwasanaeth) ar draws y ffin i gael gofal eilaidd a arweinir gan feddyg ymgynghorol (ar hyn o bryd nid yw hyn yn cynnwys Gwasanaethau Cymunedol, Iechyd Meddwl ac atgyfeiriadau brys pan amheuir canser). Bydd GIG Lloegr yn gyfrifol am hwyluso arferion meddygon teulu ar draws y ffin wrth asesu'r RAS drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ariennir costau gweithredol y RAS gan GIG Lloegr ac mae pob ochr yn cytuno mai'r RAS:

- Fydd y broses atgyfeirio ar gyfer trigolion o Loegr yn y practisau meddyg teulu hynny ar y ffin yng Nghymru sydd wedi cytuno i ddefnyddio'r RAS
- Fydd yn cael ei gynnal tra bo'r Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion hwn yn gymwys

9) Nodir rhagor o fanylion gweithredol ar y RAS yn Atodiad 1.

10) Mae gan gleifion sy'n byw yn Lloegr y mae eu practisau meddyg teulu ar y ffin wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r RAS yr un hawl cyfreithiol i ddefnyddio gwasanaethau GIG Lloegr â'r cleifion hynny sy'n byw yn Lloegr y mae eu practisau meddyg teulu wedi dewis bod yn rhan o'r RAS. Os yw claf sy'n byw yn Lloegr yn dymuno arfer yr hawl hwn ac nad yw ei bractis meddyg teulu wedi dewis bod yn rhan o'r RAS, mae'n rhaid i'w CCG lleol ddod o hyd i feddyg teulu sydd o dan gontract i GIG Lloegr fel y gellir trosglwyddo'r claf ato

² <http://www.whssc.wales.nhs.uk/services>

cyn gynted â phosibl er mwyn defnyddio gwasanaethau GIG Lloegr.

- 11) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfod sy'n codi yn unol â'r Broses Datrys Anghydfod a nodir yn Atodiad 3.

Egwyddorion gweithredol a rhannu gwybodaeth

- 12) Bydd pob sefydliad yn rhannu gwybodaeth, pan fo'n briodol, yn brydlon er mwyn hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau da, cefnogi gofal iechyd a lleihau'r risg i gleifion cymaint â phosibl. Bydd pob sefydliad yn gweithredu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth.
- 13) Bydd gofal brys y GIG ar gael i bob claf pa bynnag ochr o'r ffin y mae'n byw ynddi.
- 14) Bydd cyrff GIG lleol yn gweithio gyda'i gilydd drwy eu timau Cynllunio ar gyfer Argyfwng / Parodrwydd, Cydnerthedd ac Ymateb i Argyfwng (EPRR) lleol (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt yng Nghymru) i sicrhau bod trefniadau ar gyfer cynllunio Sifil Wrth Gefn ac Ymateb i Argyfwng ar hyd y ffin yn cefnogi'r ddwy ochr.
- 15) Bydd y bobl sy'n rhan o ofal iechyd ar draws y ffin, gan gynnwys meddygon teulu, cleifion, CCG a BILL, sefydliadau eirioli, clinigwyr eraill a grwpiau cynrychioli cleifion statudol, yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn rhwydd. Bydd hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth a ddarperir mewn practisau meddyg teulu a gwybodaeth ar wefannau pob corff sy'n rhan o ofal ar draws y ffin. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth i gleifion sy'n byw yn Lloegr am sut i gofrestru â phractis meddyg teulu sydd o dan gontract i GIG Lloegr er mwyn defnyddio gwasanaethau GIG Lloegr cyn gynted â phosibl.
- 16) Bydd sefydliadau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a sefydliadau cleifion yn cydweithredu i sicrhau bod yr wybodaeth i gleifion am ofal iechyd ar draws y ffin yn glir, yn canolbwyntio ar y claf ac yn hawdd ei deall.
- 17) Bydd materion yn ymwneud ag ardal y ffin yn cael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw ad-drefnu gwasanaethau perthnasol yn y dyfodol, gan gynnwys dyletswyddau statudol i ymgynghori. Caiff hyn ei fonitro gan gorff sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, BILL, CCG a grwpiau cynrychioli cleifion statudol.
- 18) Wrth ddatblygu a gweithredu cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau a strwythurau'r GIG, rhoddir ystyriaeth i'r effaith ar y ddarpariaeth o ofal iechyd ar hyd y ffin. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys yr holl grwpiau yr effeithir arnynt.

Egwyddorion ariannol

- 19) Ni fydd trefn ariannol wahanol ar y naill ochr i'r ffin yn creu rhwystrau

amhriodol i ofal cleifion; gweler Atodiad 2 ynghylch sut y caiff addasiadau eu gwneud. Ceir cyfnod ymgysylltu priodol cyn gwneud unrhyw newidiadau er mwyn gallu nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effaith bosibl.

20) Mae'r ddwy wlad wedi ymrwymo i'r egwyddor na chaiff unrhyw driniaeth ei gwrthod ac na fydd unrhyw oedi oherwydd ansicrwydd neu amwysedd o ran pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu darpariaeth gofal iechyd unigolyn, neu oherwydd gwahanol reolau o ran lefel y gwasanaethau sydd ar gael o dan system iechyd pob gwlad.

Newidiadau i'r Datganiad ac Adolygiadau

21) Caiff atodiadau gweithredol y datganiad hwn eu hadolygu bob blwyddyn gan gorff sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, BILI, CCG a grwpiau cynrychioli cleifion statudol i asesu a ydynt yn darparu'r egwyddorion a'r hawliau cyfreithiol a nodir yn y datganiad.

22) Caiff y Datganiad o werthoedd ac egwyddorion trosfwaol ei adolygu bob 3 blynedd o'r dyddiad gweithredu. Diben yr adolygiad hwn fydd asesu a yw'r Datganiad wedi bod yn effeithiol wrth ddarparu'r hawliau cyfreithiol i gleifion ar draws y ffin yn unol â deddfwriaeth eu gwlad berthnasol a sicrhau bod gofal cleifion ar draws y ffin yn gweithredu'n ddiogel heb roi gormod o faich gweinyddol ar BILI neu CCG.

23) Gellir adolygu'r Datganiad a'r atodiadau ar unrhyw adeg yn unol â gofynion gweithredol a chyfreithiol sy'n newid. Cytunir ar unrhyw newidiadau gofynnol i'r atodiad gweithredol gan gorff sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, BILI, CCG a grwpiau cynrychioli cleifion statudol. Argymhellir unrhyw newidiadau i'r datganiad gan y grŵp cynrychioli hwn a chytunir arnynt gan Lywodraeth Cymru a GIG Lloegr.

Atodiad 1

Manylion gweithredol yn ymwneud â chleifion sy'n byw yn ardaloedd y ffin

Cymhwysedd

- 1) dan adran 13O(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (fel y'i diwygir gan adran 23 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012), i gleifion sy'n byw yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru â phractis meddyg teulu yng Nghymru, eu grŵp comisiynu clinigol (CCG) lleol, GIG Lloegr a Public Health England (PHE) fydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gomisiynu neu am gynllunio a sicrhau eu gofal iechyd eilaidd. Fodd bynnag, bydd y bwrdd iechyd lleol (BILI) yn sicrhau ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd eilaidd ac arbenigol ac yn talu amdanynt ar ran y cleifion hynny o Loegr.
- 2) I gleifion sy'n byw yng Nghymru sydd wedi cofrestru â phractis meddyg teulu o dan contract i GIG Lloegr, bydd y cyfrifoldeb cyfreithiol am gomisiynu neu am gynllunio a sicrhau eu gofal iechyd yn aros gyda'u BILI. Fodd bynnag, bydd y CCG sy'n cynnwys eu practis meddyg teulu (neu ar gyfer iechyd milwrol, arbenigol a throseddwy, GIG Lloegr) yn gyfrifol, ar ran y Bwrdd Iechyd, am gomisiynu a thalu am wasanaethau gofal iechyd i'r trigolion hynny
- 3) Mae'r tabl canlynol yn diffinio'r ardaloedd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr y mae'r trefniant ym mharagraffau 1 a 2 uchod yn berthnasol iddynt:

Ardaloedd o Gymru sydd ar y ffin â Lloegr	Grwpiau Comisiynu Clinigol sydd ar y ffin â Chymru
Sir y Fflint	GIG Gorllewin Swydd Gaer
Wrecsam	GIG Swydd Amwythig
Powys	GIG Swydd Gaerloyw
Sir Fynwy	GIG Swydd Henffordd
Sir Ddinbych	GIG De Swydd Gaer
	GIG Wirral
	GIG Telford a Wrekin

DS: nid oes cydberthynas ddaearyddol rhwng y rhain

- 4) At ddibenion y ddogfen hon, cleifion y ffin yw'r rhai hynny sy'n byw ar hyd ffin Cymru a Lloegr (fel y nodir uchod) sydd wedi eu cofrestru [â phractis meddyg teulu sydd o dan gytundeb â sir gyfagos ar draws y ffin](#). I gleifion sy'n byw mewn man arall o Gymru neu Loegr sydd wedi'u cofrestru gan feddyg teulu ar ochr arall y ffin, bydd y cyfrifoldeb am gomisiynu, cynllunio, sicrhau a thalu am eu gofal iechyd yn aros yn yr ardal CCG neu BILI y mae'r claf yn nodi yw ei fan preswyllo arferol³. Mae'r fframwaith polisi a statudol yn nodi'r comisiynydd sy'n gyfrifol am gleifion penodol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Plant.

³ <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2014/05/who-pays.pdf>

- 5) Mae gan BILlau yng Nghymru gyfrifoldeb statudol i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu gofal iechyd sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau lleol yn unol â Deddf GIG (Cymru) 2006, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Maent yn cyflawni hyn naill ai drwy ddarparu gofal iechyd neu drwy gomisiynu gofal iechyd gan ddarparwyr gwasanaeth eraill.
- 6) Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), yn gweithio ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru ac yn comisiynu nifer o wasanaethau mwy arbenigol ar lefel genedlaethol sydd y tu hwnt i gylch gwaith RAS. Nid oes gan gleifion sydd wedi eu cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru sy'n byw yng Nghymru yr hawl statudol i ddewis pa ysbyty y cânt eu hatgyfeirio iddo. O ganlyniad, ni ddylai'r cleifion hyn fod yn gallu cael gwasanaethau gofal iechyd mewn man arall oni fydd yr holl ddewisiadau triniaeth sydd ar gael mewn gwasanaethau a ddarperir yn lleol neu'r rheini a gomisiynwyd gan Fyrddau Iechyd wedi'u disbyddu a'i bod yn glinigol briodol i wneud hynny. Byddai cais am driniaeth arferol y tu allan i wasanaethau lleol neu drefniadau cytundebol sefydledig bob amser yn destun proses gymeradwyo ymlaen llaw.

Gall cais o'r fath fod yn berthnasol i un o'r categorïau canlynol:-

- Ail farn
 - Diffyg darpariaeth/arbenigedd lleol/gwasanaeth wedi'i gomisiynu
 - Dilyniant gofal clinigol (ystyrir fesul achos)
 - Trosglwyddo yn ôl i'r GIG ar ôl hunanariannu yn y sector breifat
 - Ailatgyfeirio yn dilyn atgyfeiriad trydyddol blaenorol
 - Myfyrwyr
 - Cyn-filwyr
- 7) Ar gyfer achosion pan fo angen cyllid am ofal iechyd y GIG i gleifion unigol sydd y tu allan i'r ystod o wasanaethau a thriniaeth y mae Bwrdd Iechyd wedi trefnu i'w darparu'n rheolaidd, dylid dilyn y Polisi Cais i Ariannu Claf Unigol (IPFR). Byddai cais o'r fath yn perthyn i un o'r categorïau canlynol;
 - Mae angen triniaeth ar y claf sy'n newydd, yn anghyffredin, sy'n cael ei ddatblygu neu nad yw wedi'i brofi ac nad yw'n un o restr arferol y Bwrdd Iechyd o wasanaethau a thriniaeth,
 - Mae angen triniaeth ar y claf sydd y tu allan i feini prawf polisi clinigol presennol,
 - Mae angen triniaeth ar glaf sydd â chyflwr prin neu arbenigol ac nid yw'n gymwys ar gyfer triniaeth yn unol â meini prawf y polisi clinigol.
 - 8) Ni fydd angen Ceisiadau i Ariannu Claf Unigol a mathau eraill o gymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer triniaeth frys neu un sy'n angenrheidiol ar unwaith.
 - 9) Mae Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG), a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, yn gyrrff statudol . Eu swyddogaeth yw comisiynu

gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yn Lloegr a chânt eu trin fel cyrff GIG at ddibenion Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. Nodir dyletswyddau grwpiau comisiynu clinigol i gomisiynu gwasanaethau iechyd penodol yn adran 3 o Ddeddf 2006, a chaiff ei diwygio gan adran 13 a 14 o Ddeddf 2012.

10) Fel yng Nghymru, comisiynir rhai gwasanaethau sy'n darparu gofal am gyflyrau prin neu hynod gymhleth yn ganolog gan GIG Lloegr. Mae'r ffactorau sy'n penderfynu a yw GIG Lloegr yn comisiynu gwasanaeth yn uniongyrchol yn cynnwys:

- Nifer yr unigolion y mae angen y gwasanaeth arnynt;
- Cost darparu'r gwasanaeth neu'r cyfleuster;
- Nifer y bobl sy'n gallu darparu'r gwasanaeth neu'r cyfleuster a'r
- Goblygiadau ariannol i'r CCG pe bai angen trefnu i ddarparu'r gwasanaeth neu'r cyfleuster eu hunain

11) Yn Lloegr, gellir gwneud Cais Ariannu Unigol (IFR) am driniaeth neu wasanaeth nad yw ar gael fel arfer gan y GIG. Gall hyn gynnwys triniaethau sy'n newydd iawn, neu pan mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael bod y driniaeth yn effeithiol yn glinigol neu'n gost-effeithiol. Bydd pob CCG yn cyhoeddi eu polisiâu Amgylchiadau Clinigol Eithriadol, sy'n nodi pan fo angen IFR neu Gymeradwyaeth Ymlaen Llaw. Mae ceisiadau am Gymeradwyaeth Ymlaen Llaw yn ymwneud a gweithdrefnau a ariennir, ond sy'n dibynnu ar y claf yn bodloni trothwyon a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar gyfer triniaeth.

12) Mae gan GIG Lloegr ddyletswydd, wrth wneud penderfyniadau comisiynu, i ystyried effeithiau tebygol y penderfyniadau hyn ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd i bobl sy'n byw mewn ardal o Gymru sy'n agos i'r ffin â Lloegr. Disgwylir i'r GIG yng Nghymru weithredu ar yr un sail o ran y camau sy'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn ardal o Loegr sy'n agos i'r ffin â Chymru.

13) Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r hyn y dylai cleifion sy'n byw ar y ffin allu eu disgwyl yn y safonau o ran y gofal iechyd arbenigol a heb fod yn arbenigol sydd ar gael, yn dibynnu ar eu man preswyllo, y llwybr atgyfeirio, lleoliad y meddyg teulu a'r darparwr. Dylid nodi safonau sy'n cynnwys trothwyon clinigol ar gyfer triniaeth a meini prawf atgyfeirio eraill gan y CCG neu'r BILI:

Man Preswyl o'r Claf	Man cofrest ru â meddy g teulu	Y corff sy'n gyfrifol yn gyfreith iol	Atgyfeiriw yd y claf gan	Darparwr yn Lloegr	Darparwr yng Nghym ru
Cymru	Cymru	BILI	Meddyg Teulu	Safonau GIG Cymru	Safonau GIG Cymru
Lloegr	Cymru	CCG	Meddyg Teulu trwy'r RAS	Cyfansodd iad GIG Lloegr	Safonau GIG Cymru
Lloegr	Cymru	CCG	Atgyfeiriad Meddyg Teulu heblaw am drwy'r RAS	Cyfansodd iad GIG Lloegr	Safonau GIG Cymru
Lloegr	Lloegr	CCG	Meddyg Teulu	Cyfansodd iad GIG Lloegr	Safonau GIG Cymru
Cymru	Lloegr	BILI	Meddyg Teulu	Cyfansodd iad GIG Lloegr	Safonau GIG Cymru

Gwasanaethau arbenigol a gomisiynir yn genedlaethol

14) Er nad yw'r gwasanaethau hyn yn mynd trwy'r RAS, mae gan gleifion sy'n byw yn Lloegr yr hawl i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol GIG Lloegr yn unol â chyfansoddiad GIG Lloegr. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i gael gafael ar wasanaethau arbenigol

Man Preswyl o'r Claf	Man cofrest ru â meddy g teulu	Atgyfeiriw yd y claf gan	Y corff sy'n gyfrifol yn gyfreith iol	Y corff a fydd yn tal am ofal y claf	Darparwr yn Lloegr	Darparwr yng Nghymru
Cymru	Cymru	Meddyg Teulu	BILI	WHS SC (ar ran y BILI)	Safonau GIG Cymru	Safonau GIG Cymru
Lloegr	Cymru	Meddyg	GIG	BILI	Cyfan	Safon

		Teulu trwy'r RAS	Lloegr	trwy WHS SC	- soddi ad GIG Lloegr	au GIG Cymru
Lloegr	Cymru	Atgyfeiriad gan feddyg teulu heblaw am drwy'r RAS	GIG Lloegr	GIG Lloegr	Cyfan - soddi ad GIG Lloegr	Safon au GIG Cymru
Lloegr	Lloegr	Meddyg Teulu	GIG Lloegr	GIG Lloegr	Cyfan - soddi ad GIG Lloegr	Safon au GIG Cymru
Cymru	Lloegr	Meddyg Teulu	BILI	GIG Lloegr	Cyfan - soddi ad GIG Lloegr	Safon au GIG Cymru

Y Gwasanaeth Asesu Atgyfeiriad

- 15) Mae'r RAS yn system atgyfeirio, a reolir gan CCG Swydd Amwythig, i alluogi trigolion o Loegr (sydd wedi'u cofrestru â phractis meddyg teulu yng Nghymru) ddewis darparwr gofal eilaidd yn Lloegr neu gael eu hatgyfeirio yn ôl i GIG Cymru. Mae'r RAS yn gweithredu fel un pwynt cyswllt i bractisau meddyg teulu ar y ffin â Chymru wrth atgyfeirio cleifion o Loegr ar draws y ffin i Loegr am ofal eilaidd a arweinir gan feddyg ymgynghorol (ar hyn o bryd nid yw hyn yn cynnwys Gwasanaethau Cymunedol, Iechyd Meddwl ac atgyfeiriadau brys pan amheuir canser). Mae'r RAS yn cynnig i drigolion o Loegr y dewis o ofal eilaidd yn Lloegr yn unol â hawliau Cyfansoddiadol y GIG, neu gael eu hatgyfeirio yn ôl i GIG Cymru i gael eu trin o dan safonau Cymru.
- 16) Bydd GIG Lloegr yn gyfrifol am hwyluso gallu practisau meddyg teulu i ddefnyddio'r RAS, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- 17) Os cânt eu hatgyfeirio drwy'r RAS i wasanaethau a ddarperir yn Lloegr, caiff y cleifion hyn eu cynnwys yng nghyfresi data darparwyr Lloegr a ddarperir i BILI Cymru.

Rheoli Gwasanaethau ar draws y Ffin

- 18) Bydd corff sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, BILI a CCG yn gweithio gyda'i gilydd i greu a rheoli dulliau o nodi a rheoli materion sy'n ymwneud â'r ffin.
- 19) Bydd cyrff GIG lleol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau ar waith i gyrff ymgysylltu â phoblogaethau ar draws y ffin mewn trafodaethau ar ansawdd a newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.
- 20) Mae gofal a ariennir gan y GIG mewn cartrefi gofal preswyl ar draws y ffin yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar leoliad y cartrefi gofal. Dylai CCG gyfeirio at ganllawiau'r comisiynydd cyfrifol, *'Who Pays? Determining Responsibility for Payment to Providers'*, a chyrrff GIG yng Nghymru at y diffiniad a nodir yn *Canllawiau Corff Cyfrifol*. <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2014/05/who-pays.pdf>. Gwnaed newidiadau i'r ddogfen hon yn 2016. <https://www.adass.org.uk/media/5173/updated-s117-who-pays-guidance-applicable-from-1st-april-2016.pdf>.
- 21) Pan fo CCG neu BILI yn trefnu pecyn o Ofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC), (heblaw am becyn sy'n ofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn unig), bydd y corff lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am CHC y person hwnnw hyd nes daw'r cyfnod gofal hwnnw i ben.

Atodiad 2

Trosglwyddo cronfeydd

- 1) Nod y Datganiad hwn yw na fydd unrhyw ddiffyg ariannol ar ran y BILI na'r CCG wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i drigolion y wlad arall yn unol â'u hawliau cyfreithiol.⁴
- 2) Wrth weithredu yn unol â'r Datganiad hwn bydd y BILI a'r CCG cyfrifol yn cael eu hariannu'n briodol er mwyn comisiynu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer trigolion y wlad arall. Bydd cronfeydd yn cael eu trosglwyddo yn brydlon ac yn briodol rhwng Llywodraeth Cymru/BILI ac Adran Iechyd/GIG Lloegr/CCG, yn seiliedig ar y fethodoleg sydd eisoes yn bodoli, sef ad-daliad fesul pen o'r boblogaeth bresennol am y gwahaniaeth net yn y cofrestriadau gofal sylfaenol rhwng Lloegr a Chymru.
- 3) Mae tua 21,000 o drigolion o Loegr wedi'u cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru, a 15,000 o drigolion o Gymru wedi'u cofrestru a meddygon teulu yn Lloegr. Mae pob gwlad yn talu'r holl gostau am ofal eilaidd i ddechrau o atgyfeiriadau o ofal sylfaenol, pa un a ydynt o Loegr neu o Gymru.
- 4) Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae Lloegr yn trosglwyddo cronfeydd i Gymru sy'n ymwneud yn dybiannol â'r gost ar gyfer yr holl ofal eilaidd am y 6,000 net "ychwanegol" o drigolion o Loegr sydd wedi'u cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru.
- 5) Mae ffigyrau'r setliad yn seiliedig ar nifer cyfartalog y cofrestriadau meddyg teulu ar draws y ffin, a chostau cyfartalog ar gyfer gofal eilaidd fesul pen o'r boblogaeth yn y ddwy wlad. Adolygwyd y gwerthoedd perthnasol sawl gwaith ers 2007-08, a golyga'r twf yn y gwariant ar iechyd yn y ddwy wlad fod y ffigur setliad cyfredol o £5.8 miliwn yn parhau i fod yn briodol.

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/the-nhs-constitution-for-england>

Atodiad 3 – Y Broses Datrys Anghydfod ar gyfer comisiynwyr GIG am anghydfodau sy'n ymwneud a thriniaeth cleifion

Mae'r adran hon yn berthnasol i anghydfodau rhwng comisiynwyr GIG ar y naill ochr neu'r llall o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mae'r broses ganlynol ar gyfer datrys anghydfodau yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu dilyn os na ellir dod i gytundeb rhwng y BILL neu'r WHSSC yng Nghymru a'r CCG yn Lloegr. Bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol os digwydd anghydfod:

- Ni fydd unrhyw anghydfod ariannol yn amharu ar ddechrau triniaeth y claf.
- Mae corff comisiynu'r claf yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am ofal y claf pan fo anghydfod
- Y dyddiad atgyfeirio o hyd fydd y pwynt pan atgyfeiriwyd y claf gan y darparwr Gofal Sylfaenol ac nid dyddiad yr anghydfod.
- Pe bai'r claf yn dymuno cwyno am y driniaeth/gwasanaethau a gafodd bydd yn gwneud hyn drwy'r weithdrefn gwyno GIG berthnasol⁵
- Ni chaiff darparwyr gwasanaethau GIG yng Nghymru na Lloegr fod dan anfantais ariannol pan fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys

Y Cam yn y Broses	Uchafswm amserlen
<p>Cam 1. Datrys yn lleol</p> <p>Mae'n rhaid i'r BILL neu Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r CCG geisio dod i gytundeb yn lleol ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol gan ddefnyddio canllawiau ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a GIG Lloegr.</p> <p>Mae'n rhaid gwneud pob ymdrech resymol gan swyddogion (gan uwch gyfeirio at brif swyddogion ac yn y pen draw at Gadeiryddion os oes angen) y BILL neu'r WHSSC a'r CCG i ddod i gytundeb yn lleol. Gall hyn gynnwys dewis naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cytuno i ariannu triniaeth cleifion ar sail 50/50; neu • bod y darparwr lletya yn talu cost y driniaeth <p>Os bydd hyn yn digwydd, gwneir addasiad ariannol pan fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys i sicrhau nad yw'r darparwr a nodwyd i dalu am y driniaeth dan anfantais ariannol.</p>	Wythnos 3
<p>Cam 2. Datrys ar lefel Cyfarwyddwr Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Cyfarwyddwyr Rhanbarthol Gweithrediadau a Sicrwydd GIG Lloegr =</p> <p>dan amgylchiadau eithriadol, gall Prif Swyddogion y</p>	Wythnos 8

⁵ <https://www.nhs.uk/nhsengland/complaints-and-feedback/pages/nhs-complaints.aspx>

<p>BILI/WHSSC a'r CCG ddod i'r casgliad na allant ddod i gytundeb yn lleol ac felly byddant yn penderfynu ei atgyfeirio ymlaen at Gyfarwyddwr y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol yn Llywodraeth Cymru (HSSG) a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Gweithrediadau a Sicrwydd GIG Lloegr.</p> <p>Dylai'r cyflwyniad ar y cyd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • crynodeb cefndirol o achos y claf • cadarnhad nad yw gofal y claf mewn perygl • y corff sy'n cymryd cyfrifoldeb dros y claf ar hyn o bryd • y rheswm pam mae'r comisiynydd/cynllunwyr gofal iechyd yn anghytuno ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ariannu gofal iechyd y claf; a • yr hyn sydd wedi ei wneud i geisio datrys materion. <p>Ceir trafodaeth rhwng Cyfarwyddwr yr HSSG a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Gweithrediadau a Sicrwydd GIG Lloegr i ddatrys y mater yn seiliedig ar y ffeithiau a'r canllawiau. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac yn rhwymo'r ddau gomisiynydd/cynllunwyr gofal iechyd. Anfonir llythyr ar y cyd i roi gwybod i'r ddau am y penderfyniad.</p>	
<p>Cam 3. Lefel Genedlaethol</p> <p>Pe bai achos eithriadol o beidio â dod i gytundeb rhwng Cyfarwyddwr yr HSSG a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Gweithrediadau a Sicrwydd GIG Lloegr erbyn wythnos 10, dylid gofyn am arweiniad gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Cenedlaethol Gweithrediadau GIG Lloegr yn Lloegr. Drwy eu timau, bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn cydgysylltu â'i gilydd i gytuno ar y dehongliad o'r achos a rhoi cyngor ar y cyd i Gyfarwyddwr yr HSSG a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Gweithrediadau a Sicrwydd GIG Lloegr i sicrhau y cyflawnir datrasiad.</p>	<p>Wythnos 14</p>